



"Rydw i'n darllen yn araf, gall llyfr gymryd misoedd i mi, a gall erthyglau mewn cyfnodolion fy nrysu'n llwyr."

Cynghorion ar Ddarllen

Gall darllen ymddangos yn dasg enfawr.

Weithiau mae cymaint o ddeunydd, mae'n teimlo fel na allwch chi fyth fynd drwyddo i gyd.

Dyma rai awgrymiadau a fydd yn eich helpu i rannu'r cyfrolau diddiwedd yna'n **ddarnau hylaw**.

Yr Amgylchedd Darllen

Ydych chi mewn **amgylchedd addas ar gyfer darllen**? Gofynnwch i'ch hun:

- Sut mae'r golau? Ydy'n ddigon cryf? Rhy lachar?
- Ydy'n rhy swllyd? Oes yna ormod o bethau'n tynnu sylw?

Byddwch yn onest gyda chi eich hun, os nad ydych chi yn yr amgylchedd iawn, bydd yn anodd darllen.

Cynghorion Darllen (rhagor)

1. Os **byddwch yn ei chael hi'n anodd yn dilyn y llinellau** testun defnyddiwch eich bys, pren mesur neu ddarn o bapur wedi ei blygu (gellwch ei ddefnyddio hefyd fel dalen atgoffa) i gadw eich lle.
2. Rhowch gynnig **ar ddalennau lliw**, prennau mesur lliw neu hyd yn oed sbectol liw i wneud y golau'n llai llachar a gwneud y testun yn haws i'w ddarllen.
3. Darllen ar gyfrifiadur? **Mae gan Read & Write** nodwedd masgio sgrîn sy'n lliwio sgrîn gyfan i liw o'ch dewis.
4. Cymerwch **seibiannau byr rheolaidd**, mae hyn yn lleddfu straen ac yn torri ar undonedd y darllen.
5. Darllenwch **hyn a hyn bob tro**. Peidiwch â dweud wrthyh chi eich hun "Rydw i'n mynd i ddarllen y bennod hon i gyd" os ydych yn gwybod y

byddwch yn ei chael hi'n anodd. Ewch fesul tudalen, neu fesul paragraff.

6. Neilltuwch **ychydig o amser** bob dydd ar gyfer darllen. Lluniwch amserlen darllen ac mae darllen yn rheolaidd yn gwella eich cywirdeb, eich cyflymder a'ch gallu i ddeall.
7. Wrth ddarllen pennod, darllenwch **yr adran ragarweiniol, llinellau cyntaf** pob paragraff a'r **casgliad** yn gyntaf cyn mynd trwy'r bennod gyfan. Efallai y byddwch yn gweld nad oes angen i chi ddarllen popeth i ddeall y cynnwys.
8. Dylech ymgyswrtio â'r **testunau craidd**. Darllenwch y clawr cefn, y dudalen gynnwys, a phenawdau'r adrannau. Os oes adran/pennod ragarweiniol neu grynodeb, darllenwch drwyddynt hefyd.

